
GRAFFEG

## ABC o Opera Academi Benwan y Cyfansoddwyr

# *ABC o Opera: Baróc* gan Mark Llewelyn Evans




- Awdur Mark Llewelyn Evans
- Dylunydd Karl Davies
- Clawr meddal, 64 pages
- Maint 250 x 200mm
- Age 8-11
- Pris £9.99
- ISBN 9781912213863


Gwefannau'r awduron a darlunwyr:
**www.markllewelynevans.co.uk**
**www.abcofopera.com**
**www.karlpic.co.uk**

## Opera

Gall cerddoriaeth Opera fod yn fachyn diddorol i gychwyn ar nifer o brosiectau mewn dosbarth. Gall y llyfr fod yn fan cychwyn i'r plant fynd ar siwrne o ddarganfod am opera ond hefyd at baratoi at gynhyrchiad eu hunain yn yr ysgol – gallant ddysgu am yr holl waith wna pobl i baratoi fel ysgrifennu, peintio setiau, gwneud propiau, cyfansoddi, gwahodd, hysbysebu ac ymarfer gan ddod at y cynhyrchiad gorffenedig ar y diwedd.

Mae yna gyfleoedd di-ri i drafod lles ac emosiynau'r plant drwy gydol y gweithgareddau.

Gall chwarae cerddoriaeth gefndirol wrth i'r plant wneud tasgau eu cyfarwyddo a'r clasurol – o bosib fe wnant adnabod rhai o raglenni teledu/ hysbysebion.




## Clawr

**Dewch i drafod:** Siaradwch am y clawr blaen:

Pam ei fod yn galed? I ddiogeli / gofalu – pa bethau/ pobl arall sy'n gofalu? Sut?

Pa wybodaeth sydd arno? (Teitl/ Awdur/ Dylunydd)

Beth ydych yn meddwl o'r lluniau? Y lliwiau? Y fônt a ddefnyddiwyd?

Fedrwch chi ddyfalu beth allai ddigwydd yn y stori?

Beth yw **academi** (gair arall am ysgol) Beth yw ystyr benwan? Gallwch chi feddwl am eiriau arall sy'n golygu benwan?

Beth yw ystyr **Cyfansoddwr**? Sut mae'n wahanol i ysgrifennwr caneuon?

**Beth am greu:** Ceisiwch greu clawr i lyfr am eich ysgol chi, meddyliwch am deitl diddorol.

 © 2021 Graffeg. Cedwir pob hawl. 




## Cefn

**Dewch i drafod:** Trafodwch y clawr cefn:

Pa wybodaeth sydd ar gefn y llyfr?

Mae yna adolygiadau? Beth yw adolygiad? Pwy ysgrifennodd yr adolygiadau? A fedrwch wneud hyn fel swydd? Pwy sy'n ysgrifennu adolygiadau?

Mae yna froliant – beth yw ystyr broliant?

Mae yna ragor o wybodaeth... enw'r argraffwyr / yr ISBN/ rhestr o enwau llyfrau eraill yn y gyfres.

**Beth am greu:** Ysgrifennwch froliant neu adolygiad un o'ch hoff lyfrau a'u gosod yn y cornel darllen, gall rhain fod yn eiriau a sêr i ddynodi eich hoffter.

I blant ifanc fe all yr athro fod yn ysgrifwr a chynhyrchu rhai fel dosbarth cyfan o'u hoff storïau.

Gellid adolygu tegan/ gem/ rhaglen deledu.

Chwilotwch am cynifer o bethau ag y medrwch gyda rhif ISBN arnynt a'u gosod ar arddangosfa.



## Pennod 1: Y neuadd ddirgel

**Dewch i drafod:** Beth ddigwyddodd i Megan a Jac yn y **neuadd.** Holwch y plant oes theatr neu neuadd yn eu pentref/ tref? A ydynt wedi bod yno? Beth aethant i'w weld? Sut le oedd y neuadd wedi bod yn wag am amser hir tybed? **Chwyrligwgan** yn air sbri – sawl sillaf sydd yn y gair? meddyliwch am eiriau eraill doniol a chlapio y nifer o sillafiadau/ guriadau ynddynt - gallwch ddechrau gyda enwau'r plant.

Dysgwch ddweud croeso mewn gwahanol ieithoedd, gwnewch labelau a'u gosod wrth y fynedfa.

Dirgelwch – eglurwch y byddwch yn mynd a'r plant ar daith ddirgel wrth ddarllen y llyfr.

**Beth am greu:** Edrychwch ar ddarluniau gan Rhiannon Ifans a rhai Karl Davies dylunydd y llyfr, trafodwch a chymharwch, yna peintiwch neu defnyddiwch gwahanol ddeunyddiau celf i greu lluniau o drefi gyda neuadd gerddoriaeth ynddynt



## Pennod 2: Yr Academi

**Dewch i drafod:** Hedfan i **Florence** – pwy sydd wedi bod i'r **Eidal**? Sut gwnaethant gyrraedd yno? Edrychwch ar fap I weld ble yn yr Eidal mae Florence. Meddyliwch am ffyrdd arall o deithio gan geisio cyflethrennu – ee Gyrru i Gastell nedd, Rhedeg i'r Rhondda, Sglefrio i Sgeti, Beicio lawr i Bargoed.

Sylfaenwr yr opera oedd Professore Peri – beth yw sylfaenwr? Dewch o hyd i enwau sylfaenwyr a dyfeiswyr Cymreig.

Dysgwch y geiriau Eidaleg ar dudalen 14 – beth ydynt yn Saesneg?

**Beth am greu:** Gan ddefnyddio deunyddiau ail gylchu glan crewch gist i gadw pethau'n daclus.

**Beth am arbrofi:** Crewch luniau gan arbrofi gyda gosod marciau ar y papur, llinellau igam ogam, crwm, syth, smotiau ac ati.

*ABC yr Opera: Baroc*: nodiadau addysgu © 2021 Graffeg. Cedwir pob hawl. Ysgrifenwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.



## Pennod 3: Yn y dechrau

**Dewch i drafod:** Y **Baa-rocwyr** – trafodwch y **cyfansoddwyr** a gwrandewch ar gerddoriaeth glasurol. Beth gallant glywed? A fedrant adnabod unrhyw offerynau? Dangoswch glip o opera I'r plant – Efallai o Florence tu allan neu o Milan. Beth gallant weld? Ei glywed? Sut mae'n gwneud iddynt deimlo? Ydy'r gerddoriaeth yn gyflym/ araf, hapus/ trist?

Crewch luniau neu gardiau cymeriadau cyfarwydd a mynegiant wynebol gwahanol arnynt trafodwch sut maent yn teimlo? Beth sydd wedi digwydd iddynt? Sut gallant deimlo ffordd arall?

**Beth am greu:** Sioe ysblennydd yw **Opera** –gallant greu ei set opera mewn blwch esgidiau, creu cymeriadau bychain ac adrodd stori wreiddiol eu hunain yn unigol neu fesul par.



## Pennod 4: Maestro Monte

**Dewch i drafod:** Diflannu! Beth yw ystyr diflannu/ **diflanedig** (extinct)? Fe all yr Opera fynd yn ddiflanedig fel rhai anifeiliaid. Meddyliwch am ffyrdd i osgoi hyn fel bod pobl yn cofio... lluniau, storiau, caneuon, ffotograffau, ffilmiau ac yn y blaen.Holwch y plant am gwympo mas gyda'u ffrindiau,sut deimlad ydyw? Pam oedd Professore Peri a Monterverdi yn cwympo mas a dadlau?

Sut mae ffrind da yn ymddwyn? Beth fydd yn gwneud?

Stori Groegaidd yw Orpheus (tudalen**) Pa fath o storiau arall sydd i'w cael – hanesion, chwedlau ac ati

Dysgwch y geiriau Eidaleg newydd ar dudalen 22 & 24.

**Beth am fyfyrio: 'Agitato'** – mae'r gair yn golygu yn llawn cyffro – mae ymarferion llesystyriol yn ffordd dda o ymdawelu, chwaraewch cerddoriaeth glasurol dawel ac anogwch y plant i arogli gan ganolbwyntio. – gofynnwch i'r plant gau eu llygaid a dychmygu eu bod mewn lle hyfryd ymhell i ffwrdd. Wedi ychydig yn dawel holwch y plant i sut le y buont.



## Pennod 5: Francesca Fantastica

**Dewch i drafod:** Francesca y **Prima donna** – mae hyn yn golygu y ferch gyntaf mewn Eidaleg, holwch y plant am fenywod sy'n bwysig yn eu bywydau nhwEglurwch bod y diffiniad prima donna hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ddisgrifio menywod adnabyddus ffwslyd– eglurwch rhai o'r pethau mae pobl enwog yn hawlio pan yn sefyll rhywle.

Holwch y plant beth fyddai eu rhestr o hawliau pe byddent yn enwog – ni fyddai'r plant hyfryd yma fyth yn gwneud y fath ffws.

**Beth am adrodd:** Dysgwch y geiiu ar dudalen 26 a 27. Galwch i gof yr holl eiriau a ddysgwyd hyd yma.

Crewch set o gardiau i'w dosbarthu i'r plant i chwarae gem o snap. Dywedwch gair mewn Eidaleg yn uchel, os yw'r gair ar un o'u cardiau nhw yna bydant yn ei ddal lan ac yn dweud y gair.

**Beth am ddathlu:** Fe all y plant baratoi gan arlunio, canu, ysgrifennu, daensio ar gyfer sioe dalent yr ysgol.

*ABC yr Opera: Baroc*: nodiadau addysgu © 2021 Graffeg. Cedwir pob hawl. Ysgrifenwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.




## Pennod  6: Ledled y byd

**Dewch i drafod:** Mae opera ar draws y byd i gyd, ydy'r plant wedi clywed am neu wedi bod i rai o'r gwledydd. Dangoswch faneri'r gwledydd iddynt ac un ffaith am y wlad tu ol iddynt er enghraifft Denmark – dyma lle mae Lego yn dod ohono.

Trefnwch y baneri i rai sy'n cymesur a rhai anghymesurol.

Dewisiwch baner 6 gwlad rhai o'r llyfr, tynnwch un o'r het bob dydd I ymchwilio, datrys a darganfod pethau am y wlad honno.

**Beth am ddathlu:** Crewch arddangosfa targedau cylch, yn y cylch canolig labelwch – yn agos, yr un nesaf – yng Nghymru, y nesaf – yn Ewrop a'r mwyaf – y Byd. Tasg y plant fydd casglu a rhannu o'u profiadau o lefydd i'w gosod ar yr arddangosfa gan yvhwanegu geiriau o'r ieithoedd, offerynau a wnaed yn y gwledydd, llefydd y buont yno ac yn y blaen. Mi fydd yn ddathliad Byd eang go iawn.




## Pennod  7: Doc Blow a Purcell perffaith

**Dewch i drafod:** Athrawon a disgyblion – anogwch y plant I feddwl am rywbeth aent yn arbennig yn ei wneud ac yn teimlo'n falch a hyderus ohonno, gall fod yn unrhywbeth o beintio i ganu, datrys problemau I chwarae pel droed.Dros yr wythnos sydd i ddod fe fydd pob plentyn yn cael cyfle i 'addysgu' gweddill y dosbarth am yr hyn maent yn medru ei wneud.

**Lloegr**  sut le ydyw? Pwy sydd wedi bod yno? Beth am **Lundain**? Crewch llunfap o'r daith o'r ysgol I Lundain gan fynd heibio mannau adnabyddus a rhoi ychydig o wybodaeth am yr hyn a welir ar y ffordd yno.

**Beth am ddathlu:** 'Fy llyfr arbennig i' – er myn dathlu medrau pob unigolyn byddant yn creu llyfr personol eu hunain, ynddo bydd gwybodaeth am bethau nmaent yn hoffi, medru ei wneud, pethau gwnant ymddiddori ynddynt a phethau maent wedi bod yn chwilota gwybodaeth amdanynt. Gall y rhain gael eu harddangos yn y gornel darllen neu eu cadw yn eu drorau personol.



## Pennod  8: Handel hanfodol

**Dewch idrafod:** Edrychwch ar y ddau lun o **Handel** yn y llyfr, gofynnwch I'r plant ddefnyddio ansoddeiriau i'w ddisgrifio er enghraifft trist, crac, hapus, llawen

A oedd Handel yn ddyn pwysig? Sut gwyddant hyn?

Dysgwch y geiriau Almaeneg ar dudalen 32.

**Beth am greu:** Chwaraewch gerddoriaeth **'Royal Fireworks'** gan annog y plant i arlunio a pheintio, ysgrifennu geiriau ac ymadroddion ar ddarnau mawr o bapur wr mwyn dehongli yr hyn a glywant– gallant wneud hyn fesul par neu grwp.

**Beth am arbrofi:** Edrychwch ar gatalogau neu wefanau ac ymchwiliwch i weld o beth a wnaed cadeiriau.crrewch lyfr am gadeiriau o wahanol gyfnodau, ac ar gyfer gwahanol bwrpasau/ gwahanol ystafelloedd. Ceisiwch greu cadeiriau o wahanol ddefnyddiau er enghraifft gwellt, papur, glanhawyr pibell, clai, lego ac arbrofi pa rai yw'r cryfa. Gwnewch arddangosfa o gadeiriau gwahanol yn y neuadd.

*ABC yr Opera: Baroc*: nodiadau addysgu © 2021 Graffeg. Cedwir pob hawl. Ysgrifenwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.



## Pennod 9: Lully anlwcus

**Dewch i drafod:** Ffrancwr oedd Lully, fe ddefnyddiodd **ffon fawr** i gadw curiad y gerddoriaeth, sut arall gallwn gadw curiad? Pa offer neu ran o'n corff gallwn ddefnyddio? Ysgwydd, penelin, llaw? Pa un sydd rhwyddaf? Chwaraewch ddarnau amrywiol o gerddoriaeth gan annog y plant i gadw curiad (clapio/ stampio).

**Beth am gasglu:** Sawl adnodd gall y plant gasglu mewn dwy funud sydd a'r lliwiau coch, glas neu gwyn arnynt. Sawl gweithgaredd gall y plant feddwl amdanynt sy'n ynnwys defnyddio rhyw fath o ffon – snwcer, sgubo, rhofio ac yn y blaen.



## Pennod 10: A oes dyfodol I'r opera?

**Dewch i drafod:** Galwch i gof cadw pethau'n fyw ac osgoi darfod neu diflannu.

Sut ydym yn cofio pethau? Yn yr ymennydd mae smotiau bychain o'r enw niwronau yn debyg i hadau gyda gwreiddiau yn tyfu ohonynt, ond nid ydynt wedi cysylltu g. When we do the same thing over & over again it becomes a memory, the more we do it the stronger the link. yda'I gilydd nes i ni gael profiad newydd o flasu, deimlo, clywed neu wneud yna mae'r dotiau a'r gwreiddiau'n cysylltu. Os fyddwn yn cael y profiad droeon yna fe fydd y cysylltiad yn gryf a dyna sut gwnawn gofio.

Niwrowyddoniaeth yn y dosbarth – dangoswch luniau neu chwaraewch gerddoriaeth gyfarwdd i'r plant i brofi'r pwynt uchod.

**Martsio** – mae martsio yn guriad mewn nifer o ganeuon, chwaraewch gerddoriaeth matsio I'r plant, gallant wneud hyn mewn gofod fawr a martsio I'r dde, chwith, Gogledd, De ac yn y blaen.

**Beth am ymchwilio:** Edrychwch ar atlas am enwau doniol lleoedd, neu creu enwau donion o'r newydd..



## Pennod 11: Cromwell creulon

**Dewch i drafod:** Mae'n neis i fod yn bwysig ond yn fwy pwysig i fod yn neis neu'n garedig –nid oedd **Cromwell** yn ddyn da a charedig. Pe bai Cromwell yn penderfynnu gwaredu pethau heddiw pa 5 peth byddai'r plant yn gweld eu heisiau fwyaf?

Trafodwch plant ar draws y byd a nad oes ganddynt yr un cyfleoedd na'r cyfleusterau a bod diwrnodau atgof a phrofiadau da yr un mor bwysig a deunyddiau.

Roedd Cromwell yn **Amddiffynnydd**, beth yw gwaith amddiffynydd? Sut mae'r plant yn amddiffyn a gofalu am yr amgylchedd – ailgylchu a pharchu.

**Beth am gyflwyno:** Dewisiwch un peth gall y plant fynd hebddo am 24 awr. Fe allant bleidleisio o restr o 6 peth er enghraifft: teledu, siocled, gemau cyfrifiadurol er mwyn codi arian i elusen leol neu fyd eang.

*ABC yr Opera: Baroc*: nodiadau addysgu © 2021 Graffeg. Cedwir pob hawl. Ysgrifenwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.



## Pennod 12: Arwyr yr opera

**Dewch i drafod:** Beth yw arwr? Sut gallwn ddisgrifio **arwyr**? Edrychwch ar luniau o archarwyr o lyfrau neu ffilmiau yna trafodwch y syniad o arwyr lleol. Pam eu bod yn arbennig? Beth gwnant i fod yn archarwyr?

**Beth am greu:** Ymchwiliwch i swyddi a chyfrifoldebau yn y gymuned. Crewch dystysgrifau a gwobrau i archarwyr y gymuned gan egluro pam eu bod yn rhyfeddol– gallant gael eu gwahodd i fewn i fore coffi neu wasanaeth arbenig yn yr ysgol i dderbyn eu gwobrau.



## Pennod 13: Dod yn ol

**Dewch i drafod:** Yr her – roedd gan Jac a Megan her o **gadw Baroc yn fyw**, holwch y plant pa eitemau byddent wedi dod nol yn y gist o'r academi? Sut fyddent yn rhannu eu soriau gydag eraill?

Gosodwch her i'r plant rannu eu gwybodaeth am... Gymru.. teganau... chwarae... ysgol gyda rhywun o'r dyfodol neu gydag estron o blaned arall.

Dysgwch yr eirfa newydd ar dudalen 49 a 52.

**Beth am greu:** Mewn grwpiau rhowch luniau o'r stori i'r plant eu trefnu, yna anogwch iddynt greu gem fwrdd o'r stori gan gynnwys cardiau cyfrwys a mannau symud ymlaen ac yn ol- ar ddarnau mawr o gerdyn.



## Pennod 14: Megis dechrau!

**Dewch i drafod:** Y **llythyr** – Pwy arall gallai fod wedi ysgrifennu at Jac a Megan? Beth fyddent wedi'i ddweud? A fyddent wedi ysgrifennu'n garedig? Trafodwch a dangoswch gwahanol fathau o lythyron, nodiadau, atgoffwyr ac yn y blaen.

Dysgwch y geiriau newydd ar dudalen 55

Darllenwch y dudalen olaf (66)


**Beth am ysgrifennu:** Rhowch gyfle i'r plant ddewis pwy hoffent ysgrifennu atynt yn y stori, gallant egluro sut mae pethau yn yr ysgol a beth maent yn ei wneud i gadw Baroc yn fyw a holi'r cymeriadau beth mae nhw'n ei wneud.



## Gwybodaeth bellach P56 - 65

**Darllenwch y wybodaeth gyda'r plant yna...**

**Y Cyfnod Baroc:** Crewch giwb cwestiynau gyda lluniau arno yn gysylltiedig a'r stori. Nod y gem yw rholio'r dis ac yna i'r plant egluro beth wnânt gofio/ a ddysgont o'r stori. ee Busy Bach, Galileio, Baroc, Ffrancwr timpani ac yn y blaen



**Mathau o leisiau:** Crewch arddangosfa o gantorion yn eu trefn cywir o ran y llais. Gwrandech ar gerddoriaeth lleisiol er enghraifft y Messeiah gan Handel er mwyn i'r plant geisio adnabod y lleisiau gwahanol.



**Cyfansoddwyr a chyfansoddwyr eraill y Baroc:** Ffeithiau diddorol, fel tasg adref anogwch y plant i greu ffeil o ffeithiau amdanynt eu hunain. Gallant greu arddangosfa baneri bychain (bunting) gan osod llun o'r cyfansoddwr ar un ochr a ffeithiau ar yr ochr arall

**Cwrdd a'r criw:** Dyma ffeithiau am bob cymeriad yn y stori – gall rhain fod yn sgerbwd i helpu'r plant greu rhai eu hunain i'w gosod ar y mur tu allan i'r dosbarth – arddangosfa Dyma ni!

*ABC yr Opera: Baroc*: nodiadau addysgu © 2021 Graffeg. Cedwir pob hawl. Ysgrifenwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.



Pwy fyddai'r prif gymeriadau yn eu stori nhw – ei ffrind gorau, athro, y gath, ipad hudolus?

**Cwestiynau ac atebion:** Rhai geiriau ac ymadroddion diddorol sy'n gysylltiedig a byd yr opera. Rhowch dau neu dri gair i bod grÐp a rhaid iddynt eu hegluro drwy stumiau, meim, actio i weddill y dosbarth.

## CYFRES ABC YR OPERA:

**1. Baroc: cyhoeddiad Ebrill 2019**

**2. Clasurol: Cyhoeddiad Ebrill 2021**

**3. Rhamantaidd : cyhoeddiad 2021**

**4. Modern: cyhoeddiad 2022**

Gall y nodiadau hyn gynnwys dolenni i wefannau trydydd parti. Nid yw Graffeg yn cymeradwyo gwefan(nau) o'r fath na'u cynnwys ac nid yw'n gyfrifol am gynnwys o'r fath ac nid yw'n cyflwyno unrhyw sylwadau na gwarantau ynghylch cynnwys, cywirdeb nac ymarferoldeb gwefan(nau) o'r fath.

*ABC yr Opera: Baroc*: nodiadau addysgu © 2021 Graffeg. Cedwir pob hawl. Ysgrifenwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.